# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Ryland Doyle | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Yn ystod 2015-16, cynhaliais gymorthfeydd misol a rhyngweithio gyda phreswylwyr trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ffurf Twitter (Ryland1) a Facebook (Councillor Ryland Doyle). Trwy'r rhain a dulliau cyfathrebu eraill megis e-bost a galwadau ffôn, rwyf wedi ymdrin â 163 o breswylwyr Llansamlet. Mae'r preswylwyr hyn wedi gofyn am gymorth gyda materion tai, materion ysgol, gan gwyno am amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus. Roedd y ddau fater pennaf o ran nifer yr ymholiadau'n ymwneud â'r safleoedd teithwyr a materion sy'n ymwneud â mabwysiadu ffyrdd a rheoli mannau agored cyhoeddus ar stad Heol Ynysallan.

Llywodraethwr Ysgol Gynradd Gellifedw ac, yn ystod y flwyddyn, deuthum yn Is-gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gellifedw. Roedd hyn yn cynnwys bod yn rhan o broses i benodi pennaeth newydd ar gyfer yr ysgol gyfun. Mae newidiadau i uwch-reolwyr yr ysgol yn golygu bod yr ysgol mewn sefyllfa dda i wynebu'r heriau yn y blynyddoedd i ddod.

Roeddwn (ac rwyf o hyd) yn aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Gymunedol Gellifedw ac euthum i gyfarfodydd i gefnogi dyfodol y ganolfan gymunedol. Euthum i gyfarfodydd PACT trwy gydol y ward yn ystod y flwyddyn. Rwyf wedi bod yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Gymunedol Gellifedw'n rheolaidd ac yn cefnogi ei gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Rwyf wedi bod yn rhan o'r grŵp cyswllt a sefydlwyd i edrych ar faterion sy'n ymwneud â Safle Adeiladu Tŷ Emily.

Yn ystod y flwyddyn, deuthum yn gadeirydd yr is-bwyllgor sy'n trefnu Diwrnod Hwyl Cymunedol ym Mharc Heol Las ym mis Gorffennaf 2015; roedd hwn yn ddigwyddiad poblogaidd iawn yr aeth dros 2,000 o bobl iddo. Caiff y digwyddiad hwn ei gynnal eto ym mis Gorffennaf 2016 gydag amrywiaeth mwy o ddigwyddiadau. Rwyf wedi defnyddio fy Lwfans Amgylcheddol Cynghorydd ar gyfer plannu blodau gwyllt ac i gyfrannu at gostau pont newydd ym Mharc Heol Las i gysylltu'r parc â'r clwb rygbi.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Cyngor | 15 | / | 18 | 83 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 7 | / | 8 | 88 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 1 | / | 4 | 25 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal | 3 | / | 7 | 43 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau | 3 | / | 4 | 75 | % |
| **CYFFREDINOL** | **30** | **/** | **42** | 71 | **%** |
| **Cyfarfod Craffu:** | | | | | |
| Gweithgor Craffu Cadw Coed | 1 | / | 1 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **1** | **/** | **1** | **100** | **%** |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Tan 22 Medi 2014, fi oedd Aelod y Cabinet dros Ardaloedd Targed. Fel cyn-Aelod y Cabinet, rwy'n gyfyngedig o ran cyfarfodydd pwyllgor y cyngor y gallaf fynd iddynt; ni chewch wasanaethu ar bwyllgorau craffu am gyfnod lle maent efallai'n dal i adolygu gwaith a ddechreuwyd gennych fel Aelod o'r Cabinet.

Roeddwn yn aelod o Bwyllgor Cynghori'r Cabinet - Addysg a gynhaliodd adolygiad o barodrwydd at waith pobl ifanc yn Abertawe. Roeddwn hefyd yn aelod o Bwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Gofal Cymdeithasol, a edrychodd ar weithiau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gweithredais fel y cynullydd i'r Cyng. Mark Child – roedd hyn yn cynnwys cynnig swyddogaeth gefnogi i aelodau'r Cabinet; Ymgymerais ag ymchwil i Mark a mynd i gyfarfodydd gydag ef ac ar ei ran.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi bod yn rhan o sefydlu Cyfeillion Gwarchodfa Natur Bro Tawe. Dyma grŵp dan arweiniad preswylwyr ar gyfer hyrwyddo defnydd Gwarchodfa Natur Bro Tawe fel adnodd i bobl a phlant lleol. Sefydlwyd pwyllgor a gofynnwyd i mi fod yn is-gadeirydd.

Mae'r pwyllgor wedi trefnu sawl digwyddiad megis sesiwn adeiladu gwesty pryfed i blant lleol lle gallent adeiladu gwesty a fyddai'n gartref i bryfed amrywiol y gellid arsylwi arnynt trwy'r flwyddyn.

Mae'r grŵp hefyd wedi trefnu partïon gwaith rheolaidd ar ddydd Sul cyntaf y mis (cwrdd am 10am wrth fynedfa Heol Pantyblawd – croeso i bawb).

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:
18/01/2016 – Recriwtio Diogel (Hyfforddiant Llywodraethwyr)
13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
25/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300
Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 24.05.2016 |